# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 1 Mai 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Polisïau'r Weinyddiaeth ar gyfer Partneriaeth â Busnes

**C11 John Griffiths:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru roi adroddiad ynghylch datblygiad polisïau'r weinyddiaeth ar gyfer partneriaeth â busnes? (OAQ11067) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Amodau mewn Carchardai yng Nghymru

**C12 Janet Davies:** A yw Prif Weinidog Cymru wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r Swyddfa Gartref ynghylch amodau mewn carchardai yng Nghymru? (OAQ11055)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid wyf wedi cynnal unrhyw drafodaethau â'r Swyddfa Gartref am amodau yng ngharchardai Cymru ond mae fy swyddogion wedi bod mewn cyswllt â'r adran garchardai yng Nghymru. Caf ar ddeall bod amodau yng ngharchardai Cymru yn cael eu monitro yn rheolaidd gan reolwyr y gwasanaeth carchardai, gan gynnwys rheolwyr gweithredol Cymru. Mae carchardai hefyd yn cael eu harolygu yn annibynnol gan Brif Arolygydd Carchardai ei Mawrhydi yng Nghymru a Lloegr a chan ystod o gyrff eraill, gan gynnwys byrddau ymwelwyr a'r timau archwilio safonol. Dengys y dystiolaeth fod amodau carcharorion yng Nghymru cystal ag amodau carchardai eraill yn Lloegr. Rhaid cydnabod bod carchardai Abertawe, Caerdydd a Brynbuga yn orlawn. Ymwelodd Prif Arolygydd ei Mawrhydi, Syr David Ramsbotham, â phob carchar yng Nghymru yn ddiweddar, ac ymateb yn gadarnhaol ar bob un ohonynt. Mae'r gwasanaeth carchardai wedi nodi bod croeso i Aelodau'r Cynulliad ymweld â'r carchardai.

### Cyhoeddiadau Cyllideb i Helpu Pobl Fregus yng Nghymru

**C13 Christine Gwyther:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch cyhoeddiadau cyllideb diweddar i helpu pobl fregus yng Nghymru? (OAQ11086) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cryfhau'r Berthynas â Gweddill y Byd (Clwy'r Traed a'r Genau)

**C14 Nick Bourne:** Pa gamau y gall Prif Weinidog Cymru eu cymryd er mwyn cryfhau'r berthynas rhwng Cymru a gweddill y byd yn dilyn argyfwng clwy'r traed a'r genau mewn rhannau o Gymru? (OAQ11069)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr ydym yn cydweithio ag amrediad o gyrff eraill yn y sector cyhoeddus i ddatblygu ymagwedd gydgysylltiedig ar lefel Cymru gyfan i hybu ein proffil rhyngwladol.

Crewyd llawer o gam-wybodaeth mewn rhai o'n prif farchnadoedd twristiaeth tramor oherwydd clwy'r traed a'r genau. Mae Bwrdd Croeso Cymru, gan gydweithio ag Awdurdod Twristiaeth Prydain, wedi cychwyn ymgyrch cyfathrebu i wneud iawn am hynny. Mae Dirprwy Brif Weinidog Cymru wedi rhoi cyfweliadau ar CNN a Gwasanaeth y Byd ar y BBC, wedi cyfarfod â phrif weithredwyr teithio o dramor ac wedi ymweld â'r Iseldiroedd a'r Almaen i atgyfnerthu'r neges bod Cymru yn wir ar agor i fusnes. Hefyd, yr ydym yn cymryd camau i sicrhau bod y prif farchnadoedd allforio cynnyrch amaethyddol Cymru dal ar gael ar ôl i ddigwyddiadau'r clwyf ddod i ben.

## Cydbwyllgor y Gweinidogion

**C15 Richard Edwards:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru roi adroddiad ar gynnydd Cydbwyllgor y Gweinidogion? (OAQ11078) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Cyflwr yr Economi

**C16 Delyth Evans:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael â'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch cyflwr yr economi yng Nghymru? (OAQ11054)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn trafod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rheolaidd am amrediad o byncliau, gan gynnwys yr economi. O gofio sefyllfa bresennol Corus, yr wyf wedi bod yn cysylltu yn rheolaidd a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant a'i gydweithwyr. Mae Dirprwy Brif Weinidog Cymru yn aelod o dasglu gwledig y DU, sydd o dan gadeiryddiaeth Michael Meacher, ac sydd â chynrychiolwyr amrediad o adrannau'r Llywodraeth i drafod effeithiau clwy'r traed a'r genau ar ardaloedd gwledig. Pan ymwelodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant â Chymru yr wythnos diwethaf, trafodais ag ef ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru am y cyfleoedd am fwy o fuddsoddi mewn diwydiant a masnach, i leihau lefelau diweithdra ymhellach.

## Ymgynghori ag Eraill

**C17 Alun Cairns:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar bolisi'r Cynulliad Cenedlaethol ar fwrw ymlaen â'i ymgynghori ag eraill? (OAQ11085)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i lunio polisïau mewn awyrgylch agored a chynhwysfawr. Yr ydym yn cynnwys ein partneriaid wrth ddatblygu dulliau a chanllawiau ymgynghori newydd, ac yr ydym wedi llwyddo i raddau sylweddol eisoes. Er enghraifft, lluniwyd drafft 'Polisi Cynllunio Cymru' mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a busnesau, ac fe alluogodd y strategaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu y rhai a ymatebodd i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i ymuno â gwaith y Cynulliad.

## 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'

**C18 David Melding:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru restru'r rhannau hynny o 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' sydd wedi'u rhoi ar waith hyd yn hyn? (OAQ11065) ***Tynnwyd yn ôl.***

## 'Cynigion y Cabinet ar gyfer Deddfwriaeth Sylfaenol 2001-02'

**C19 Jonathan Morgan:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar gwmpas a chynnwys 'Cynigion y Cabinet ar gyfer Deddfwriaeth Sylfaenol 2001-02'? (OAQ11066) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Materion nas Datganolwyd sydd yn Effeithio ar Gymru

**C20 Glyn Davies:** Pryd oedd y tro diwethaf i Brif Weinidog Cymru drafod materion nas datganolwyd sydd yn effeithio ar Gymru ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru? (OAQ11082)

**Prif Weinidog Cymru:** Caf drafodaethau rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru am amrediad o faterion, gan gynnwys materion heb eu datganoli sydd yn effeithio ar Gymru.

## Codi Proffil Cymru'n Rhyngwladol

**C21 Rhodri Glyn Thomas:** Sut y bydd Prif Weinidog Cymru yn codi proffil Cymru'n rhyngwladol? (OAQ11051) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Cynllun Datblygu Cynaliadwy

**C22 Pauline Jarman** Pa gamau y gall Prif Weinidog Cymru eu cymryd i sicrhau bod y cynllun datblygu cynaliadwy yn darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer datblygu polisi yn y Cynulliad? (OAQ11079) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Adolygu Lefelau Gwariant Cyhoeddus yng Nghymru

**C23 Jocelyn Davies:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch adolygu lefelau gwariant cyhoeddus yng Nghymru? (OAQ11056) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Gwella Canfyddiad y Cyhoedd o'r Cynulliad Cenedlaethol

**C24 David Lloyd:** Pa gamau y mae Prif Weinidog Cymru yn bwriadu eu cymryd er mwyn gwella canfyddiad y cyhoedd o'r Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ11052) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Sicrhau Bod Ieuenctid yn Cymryd Rhan yng Ngweithgareddau'r Cynulliad Cenedlaethol

**C25 Brian Hancock:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar ei ymrwymiad i sicrhau bod ieuenctid Cymru'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ11080) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Cadw Ceiswyr Lloches yng Ngharchardai Cymru

**C26 Helen Mary Jones:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael â'r Swyddfa Gartref ynghylch cadw ceiswyr lloches yng ngharchardai Cymru? (OAQ11049) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Adolygu Gwasanaethau Ombwdsmyn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru

**C27 Alison Halford:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch yr adolygiad arfaethedig o wasanaethau ombwdsmyn y sector cyhoeddus yng Nghymru? (OAQ11087)

**Prif Weinidog Cymru:** Ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Hydref, ac eto fis Ionawr, yn cynnig ein bod yn adolygu ombwdsmyn y sector cyhoeddus yng Nghymru ar y cyd. Prif ddiben yr adolygiad yw sicrhau bod gennym wasanaeth yn barod sydd yn diwallu anghenion Cymru yn y ganrif newydd. Mae'r adolygiad yn cychwyn yn awr.